| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 4 Gorffennaf 2017 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Steve Price a Kath Jones, Gweinyddwr Pwyllgorau |
| **Teitl:** | **Democratiaeth Leol: Amserlen Bwyllgorau 2018 a Chadarnhau Penodiad i fod ar Banel yr Heddlu a Throsedd** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys drafft o amserlen bwyllgorau ar gyfer 2018 ac mae'n gofyn am gadarnhau'r cynrychiolydd i fod ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi gofyn i amserlen 18 mis fod ar gael i aelodau. Drwy lunio amserlen mae modd cadarnhau lleoliadau cyfarfodydd ac adnoddau a chyhoeddi'r amserlen ymlaen llaw. Mae penodi cynrychiolydd i fod ar Banel yr Heddlu a Throsedd yn swyddogaeth sydd gan y Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

(i) Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Amserlen Bwyllgorau ar gyfer 2018, a
(ii) Bod y Cyngor yn penodi'r Cynghorydd Hugh Irving i fod ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru dros gyfnod y Cyngor hwn neu hyd y penodir rhywun arall.

## 4. Manylion yr adroddiad

**<u>Amserlen Bwyllgorau 2018</u>**

4.1 Mae'r flwyddyn ddinesig newydd yn dechrau gyda Chyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai. Mae'r amserlen gyfredol o gyfarfodydd pwyllgorau'n parhau tan ddiwedd 2017 ac fe fydd yn cael ei hymestyn tan ddiwedd 2018 yn unol â chais y Cyngor i gynnal amserlen 18 mis. Mae'r amserlen ddrafft ar gyfer 2018 ynghlwm fel atodiad 1 ac mae hefyd yn cynnwys eglurhad fesul pwyllgor o'r ffactorau sydd y tu ôl i nodi dyddiadau addas ar gyfer pob cyfarfod.

4.2 Mae gwybodaeth ynglŷn â phresenoldeb aelodau ym mhrif gyfarfodydd y Cyngor yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae'r aelodau hefyd ar nifer o fyrddau, paneli a gweithgorau eraill yn rhan o'u gwaith ar y Cyngor. Nid yw gwybodaeth am eu presenoldeb yn y rheini'n cael ei chyhoeddi ar y wefan. Yn dilyn ceisiadau gan rai

aelodau, mae proses ar gyfer casglu a chyhoeddi data presenoldeb ar gyfer mwy o gyfarfodydd yn cael ei datblygu ac mae disgwyl iddi fod ar waith yn nes ymlaen eleni.

**<u>Panel yr Heddlu a Throsedd</u>**

4.3 Mae pob un o chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru'n gallu enwebu aelod neu aelodau i eistedd ar y Panel. Mae nifer y seddi a ddyrennir i bob awdurdod wedi'i seilio ar gydbwysedd gwleidyddol a gwasgariad y boblogaeth ar draws Gogledd Cymru gyfan. Defnyddir methodoleg D'Hondt i bennu sawl sedd a ddyrennir i bob awdurdod lleol ac i ba grŵp/grwpiau gwleidyddol y maent yn berthnasol.

4.4 Ar sail poblogaeth, mae Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam yn penodi 2 aelod yr un ac mae Sir Ddinbych ac Ynys Môn yn penodi 1 aelod yr un. Mae maint prif bleidiau gwleidyddol y cynghorau yng Ngogledd Cymru'n pennu sawl sedd y mae gan bob grŵp neu grwpiau hawl iddynt.

4.5 Mae canlyniadau etholiadau llywodraeth leol mis Mai'n golygu bod sedd Sir Ddinbych wedi'i dyrannu i Grŵp y Ceidwadwyr, sydd wedi enwebu'r Cynghorydd Hugh Irving, ac mae gofyn i'r Cyngor llawn gadarnhau ei benodiad.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r penderfyniadau a geisir drwy'r adroddiad hwn yn ganolog i weithrediad y systemau democrataidd a phwyllgora sy'n elfennau hanfodol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac sy'n cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae costau cynnal system bwyllgorau yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol. Gall gwasanaethau ar draws y Cyngor gyfrannu at y cyfarfodydd a gynhwysir yn yr amserlen, fel arfer trwy gyfrannu gwybodaeth, adroddiadau ac amser swyddogion. Ni ddisgwylir costau i'r Cyngor o benodi aelod i fod ar Banel yr Heddlu a Throsedd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les i gymeradwyo'r amserlen bwyllgorau na phenodi aelod i fod ar Banel yr Heddlu a Throsedd.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd arolwg o farn cynghorwyr yn 2012 ynglŷn ag amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd ac mae'r casgliadau wedi cyfarwyddo amser a lleoliad cyfarfodydd. Bydd arolwg newydd yn cael ei gynnal yn nes ymlaen eleni er mwyn pennu dewisiadau'r Cyngor newydd a bydd unrhyw newidiadau y bydd y Cyngor yn cytuno arnynt yn cael eu cynnwys yn amserlen 2018.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r ystafelloedd cyfarfod mwyaf addas pryd bynnag y bo modd (o ran mynediad, parcio, cyfleusterau toiled, cludiant cyhoeddus).

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Byddai methu â chadarnhau amserlen gyfarfod newydd neu benodi aelod i fod ar Banel yr Heddlu a Throsedd yn niweidiol i drefniadau llywodraethu'r Cyngor a'r Panel.

## 11. Grym i wneud y Penderfyniad

Atodiad 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972

Cylch gorchwyl Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011